| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Cynllunio |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 15 Mawrth 2017 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cynghorydd David Smith / Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Claire MacFarlane, Swyddog Cynllunio |
| **Teitl:** | **Canllawiau Cynllunio Atodol: 'Cynllunio Ar Gyfer Diogelwch Cymunedol' – Mabwysiadu'r Ddogfen Derfynol** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) drafft ar 'Gynllunio ar gyfer Diogelwch Cymunedol'.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Diben yr adroddiad hwn yw darparu adborth ar yr ymatebion a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar CCA Cynllunio ar gyfer Diogelwch Cymunedol, y diwygiadau arfaethedig i'r CCA, ac i ofyn i'r Aelodau fabwysiadu'r ddogfen ar gyfer ei defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n mabwysiadu'r CCA arfaethedig (Atodiad 2) i'w ddefnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau cynllunio.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Os caiff ei fabwysiadu, bydd y CCA hwn yn un o gyfres o ddogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n ategu polisïau Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir Ddinbych. Mae'r CCA yn rhoi arweiniad i ddatblygwyr, Swyddogion ac Aelodau ar sut y gellid gwella diogelwch cymunedol a lleihau ofn troseddau trwy ddylunio a thirlunio.

4.2 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus am 8 wythnos o 3 Hydref tan 28 Tachwedd 2016. Ceir adroddiad ar yr ymgynghoriad, gydag amlinelliad o'r ymatebion a dderbyniwyd a'r diwygiadau arfaethedig i'r CCA, yn Atodiad 1. Cafwyd saith ymateb yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r CCA, gyda'r diwygiadau arfaethedig wedi'u hamlygu ac â ~~llinell drwyddynt~~, ynghlwm wrth Atodiad 2.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Nid yw’r CCA yn cyfrannu’n uniongyrchol at y blaenoriaethau corfforaethol ond bydd sicrhau datblygiad amgylcheddau diogel a deniadol, yn cyfrannu'n anuniongyrchol at wella’r parth cyhoeddus, yr economi leol a darparu tai o ansawdd da.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae'r adroddiad hwn yn adroddiad ar ymgynghoriad a gynhaliwyd ac ar ddiwygiadau arfaethedig i'r CCA. Ni ragwelir y bydd yn creu unrhyw gost ychwanegol.

6.2 Ar ôl ei fabwysiadu, bydd y CCA yn gymorth i Swyddogion ac Aelodau wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y wefan, a dylai gael ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn**

7.1 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Les yn dod i'r casgliad y bydd mabwysiadu'r CCA yn cael effaith gadarnhaol ar les yn Sir Ddinbych drwy greu datblygiadau diogel, deniadol a ddefnyddir yn helaeth. Mae’r asesiad o’r effaith ar les ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Mae'r CCA drafft wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus wyth wythnos. Ymgynghorwyd yn fewnol gyda'r Tîm Rheoli Datblygu. Cynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol gyda Heddlu Gogledd Cymru. Mae’r Aelodau wedi darparu mewnbwn ar gynnwys y CCA, a'r ymatebion i'r ymgynghoriad, drwy Grŵp Llywio CDLl yr Aelodau.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Dylai unrhyw gost sy'n gysylltiedig â'r canllaw fod wedi ei chynnwys o fewn y cyllidebau presennol ac felly nid oes goblygiadau ariannol amlwg yn yr adroddiad.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Heb ganllawiau manwl mae risg na fydd y Cyngor yn gallu gweithredu polisïau’r CDLl yn effeithiol o ran sicrhau bod datblygiadau’n cael eu dylunio i ystyried diogelwch cymunedol ac atal trosedd.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004).